SUL CYFFREDIN 9

**GENESIS 24:34-38, 42-49, 56-67; SALM 45:10-17;
CANIAD SOLOMON 2:8-13;
RHUFEINIAID 7:15-25A; MATHEW 11:16-19, 25-30**

● **Gweddi agoriadol**

Cawn ein tynnu i'r lle hwn,
i lecyn cysegredig,
yn deulu gyda'n gilydd,
croesawu dieithriaid,
rhannu cymdeithas,
a chyflwyno ein bywyd mewn gwasanaeth.

Cawn ein tynnu i'r lle hwn,
i lecyn cysegredig,
i'th addoli di, ein Duw.

● **Moliant**

Nid i'r cyfoethog a'r enwog,
y pwerus,
y deallus,
y dylanwadol,
yr ymddiriedaist dy air,
ond i bysgotwyr,
pobl yr ymylon a phechaduriaid,
pobl gyffredin fel ni.

Ac i bobl gyffredin fel ni
datguddiaist bethau'r nef,
er mwyn i ninnau hefyd
fod yn gludwyr newyddion da.
Felly molwn di, Arglwydd,
am y datguddiad
a neges dragwyddol dy iachawdwriaeth.

● **Cyffes**
Dymunwn dy wasanaethu –
dangos dy gariad
ble mae'n hawlio cael ei ddangos;
a bod yn gyfrwng dy gyffyrddiad
i wneud bywydau'n gyflawn;
llefaru dy air
wrth y rhai sy'n gwadu dy rym;
dal dy olau
a denu eraill at dy orsedd.
Ac eto, cyffeswn
ein harafwch i ynganu dy enw,
a themtir ni yn ddyddiol
i wrando ar lais y byd hwn,
a gwyddom nad yw ein bywydau
yn adlewyrchu dy sancteiddrwydd.

Felly, eto,
down atat yn wylaidd
gan gyhoeddi mewn ffydd,
'Boed diolch i Dduw,
sy'n maddau i ni a'n hadnewyddu,
drwy Iesu Grist ein Harglwydd!'

● Diolch

Pan fo'r siwrne
yn ymddangos yn hir,
nerth yn pallu
a ninnau yn baglu,
fe'n codi ar ein traed,
  ein hadfywio,
    ein calonogi
      a rhannu ein baich.

Arglwydd grasol,
ein cydymaith ar y ffordd,
arweinydd diogel
ar hyd llwybrau bywyd,
am dy bresenoldeb,
dy rym a'th gymorth,
rhown ddiolch i ti heddiw.